Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru – Crynodeb o'r ymgysylltu

12 Hydref 2020

## Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Gwneud i Gyfiawnder weithio yng Nghymru**, mae Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion Senedd Cymru wedi bod yn casglu barn ymarferwyr cyfreithiol ledled Cymru.

## Methodoleg a demograffeg

Trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws rhithwir gyda chyfreithwyr a bargyfreithwyr o bob rhan o Gymru. Cynhaliwyd y sesiynau hyn rhwng **16 Medi** a **30 Medi 2020.**

Cafodd **5 sesiwn** eu trefnu yn cynnwys **13 o gyfreithwyr a bargyfreithwyr** o **bum rhanbarth y Senedd.** Roedd y rhai a gymerodd ran yn gweithio mewn meysydd cynhennus ac anghynhennus o'r gyfraith, gan gynnwys (ond nid yn benodol), cyfraith trosedd, cyflogaeth, anafiadau personol, ewyllysiau, ymddiriedolaethau a phrofiant, eiddo, cyfraith weinyddol a chyfraith gyhoeddus. Roedd yno gynrychiolwyr o bractisau preifat (cwmnïau bach i ganolig a chwmnïau mawr), awdurdodau lleol a siambrau bargyfreithwyr.

Roedd 8 o'r cyfranogwyr mewn rolau Partner-Reolwr neu Reolwr-Gyfarwyddwr, neu rolau cyfatebol.

Cafwyd hyd i'r cyfranogwyr trwy gyfrwng nifer o sefydliadau perthnasol gan gynnwys Swyddfa Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx) a siambrau bargyfreithwyr yng Nghymru.

## Trefn

Defnyddiwyd dull ymchwil ansoddol drwy gyfrwng cyfres o grwpiau ffocws rhithwir ar Microsoft Teams, i roi cyfle i'r cyfranogwyr (roedd rhai ohonynt wedi cyfrannu at ymgynghoriad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru), gyflwyno ac ymhelaethu ar eu barn ar gyfiawnder yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cwestiynau i’r cyfranogwyr ymlaen llaw. Oherwydd bod amser yn brin, ac oherwydd bod angen darparu ar gyfer absenoldebau munud olaf a/neu ddirprwyon, a phrofiad cyfranogwyr, ni thrafodwyd pob cwestiwn yn y sesiynau.

## Crynodeb o'r prif themâu

### Recriwtio a chadw staff

Roedd yr heriau o ran gan recriwtio a chadw staff yn fater a drafodwyd yn helaeth gan fwyafrif y cyfranogwyr o gwmnïau bach i ganolig. Yn benodol, esboniodd cwmnïau sy'n ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol fod y prinder cynyddol o gyfreithwyr ar ddyletswydd yn debygol o waethygu’r problemau presennol o ran mynediad at gyfiawnder.

*“Un o’r heriau mwyaf yng Nghymru, yn enwedig yn y gogledd, yw cadw cyfreithwyr mewn practisau preifat. Mae gennym gyfreithiwr troseddol ifanc sy'n gadael y flwyddyn nesaf i ymuno â llywodraeth leol oherwydd nad yw'n gweld dyfodol iddi mewn cymorth cyfreithiol troseddol. Mae hi'n adfocad rhagorol ond rydyn ni'n colli pobl i lywodraeth leol a'r sector cyhoeddus.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gogledd Cymru.***

*“Nid oes cyfreithwyr ar ddyletswydd i’w cael. Efallai eich bod tybio mai'r ateb yw cynyddu cyflogau, ond rydyn ni’n cael ein cyfyngu gan gymorth cyfreithiol.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

*“Yn ein hardal ni, rydyn ni'n gweld llawer o gyfreithwyr ym maes cyfraith trosedd yn cael eu recriwtio gan y CPS (Gwasanaeth Erlyn y Goron) oherwydd eu bod nhw'n gallu cynnig pecyn gwell. Mae'r arian a gawn am y gwaith rydyn ni’n ei wneud yn ofnadwy. Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw godiad cyflog mewn ugain mlynedd.  Disgwylir i ni sicrhau cyfiawnder cyflym. Hyd yn oed pe byddai’r ffi yn cynyddu'r hanner gymaint, byddai'n gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, y ffi a gawn yn Rhydaman yw £177.94 yr achos. Gallech chi fod yn gweithio ar fater am gryn amser am hynny. Mae'n ddychrynllyd.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canolbarth a Gorllewin Cymru***

Roedd recriwtio a chadw yn cael ei ystyried yn llai o broblem ymhlith y cyfranogwyr o gwmnïau mwy. Esboniwyd bod natur eu gwaith a'u strwythurau recriwtio yn golygu bod yr effaith ar eu busnes gryn dipyn yn llai. Fodd bynnag, rhybuddiodd un cyfranogwr, er bod manteision clir i weithio o bell, y gallai o bosibl gael effaith niweidiol ar y gronfa dalent o ymgeiswyr sydd ar gael i bractisau cyfreithiol yng Nghymru.

*“Mae gennym ni broblem newydd a byw iawn yng ngoleuni'r pandemig, sydd fwy na thebyg ar ochr fasnachol y ffens. Nawr bod pawb yn gweithio o bell, ac y byddan nhw’n gwneud hynny hyd y gellir rhagweld, nid yw'r cyfyngiadau o ran cymryd swydd yn Llundain, lle y gallech o bosibl ennill traean yn fwy, yno mwyach. Mae yna hen lori fawr yn dod i lawr y draffordd i'n taro ni ar ryw adeg.*

*Rydyn ni'n ceisio gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein hamgylchedd gwaith yn gadarnhaol ac roedd ansawdd bywyd yng Nghaerdydd yn un o'r buddion roedden ni'n gallu eu cynnig, ond dydy hynny ddim yn mynd i wneud llawer o wahaniaeth nawr os oes modd i bobl gael y ddau."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

*“Rydyn ni wedi meithrin cysylltiadau â cholegau a phrifysgolion fel bod gennym fynediad at eu graddedigion pan fyddan nhw’n gadael. Dyna ymateb y mae pob cwmni cyfreithiol mawr, aeddfed wedi'i fabwysiadu oherwydd ein bod mewn marchnad sy’n cynnwys Cymru a Lloegr. Rydyn ni am gadw a denu'r staff gorau.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

Cyfeiriodd cyfranogwyr o gwmnïau bach a chanolig at broblemau cyson o ran cadw cyfreithwyr iau. Roedd recriwtio a hyfforddi cyfreithwyr iau yn cael ei ystyried yn fuddsoddiad mawr i lawer o gwmnïau. Awgrymodd rhai y gallai cyfansoddiad y proffesiwn cyfreithwyr yng Nghymru, a nodweddir yn bennaf gan gwmnïau â 2 – 4 partner, olygu bod Cymru yn cael ei heffeithio’n anghymesur gan broblemau mynediad at gyfiawnder. Rhoddodd rhai cyfranogwyr enghreifftiau o'r buddsoddiad a wnaed mewn hyfforddi staff ac effaith eu hymadawiad yn fuan wedi hynny ar y busnes.

*“Isafswm cyflog y contract hyfforddi yw £19,000. Mae tuedd gynyddol i gwmnïau bach ddewis recriwtio paragyfreithiwr am gyflog is. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru roi cymorth ariannol i helpu i dalu i baragyfreithwyr gymhwyso fel cyfreithiwr. Pan rydych chi'n recriwtio neu'n hyfforddi cyfreithiwr, rydych chi'n lleihau eich llinellau coch eich hun. Mae'n rhaid i ni ystyried a ydyn ni'n buddsoddi mewn technoleg ynteu mewn pobl. Ar hyn o bryd, technoleg sy’n cario’r dydd oherwydd dyna lle rydyn ni'n gweld ein dyfodol."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gogledd Cymru.***

*“Yn ddiweddar, fe wnaethon ni gyfweld cyfreithiwr cleientiaid preifat a oedd â gwreiddiau yma ond a oedd yn gweithio yng ngogledd Lloegr. Fe wnaethon ni gynnig codiad cyflog bach iddi a chan mai cyfreithiwr newydd gymhwyso oedd hi, roedden ni’n fodlon ei hyfforddi. Yna dywedodd wrthym nad oedd hi'n barod i ddychwelyd i Gymru. Roedden ni wedi gwario miloedd ar hysbysebion ar gyfer y swydd honno.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canolbarth a Gorllewin Cymru***

*“Fel cwmni, rydyn ni'n ystyried o ddifrif – beth yw'r diben o hyfforddi pobl? Allwn ni ddim cystadlu â swyddi yn y gwasanaeth sifil, y CPS na’r Gwasanaeth Amddiffyn Cyhoeddus. Mae'n drychineb sy’n aros i ddigwydd. Fy marn i yw na fyddwn yn cynnig rhagor o gontractau hyfforddi fel cwmni. Os na allwn ni gadw'r ddau sydd gennym, byddwn yn rhaid inni gynnig swyddi paragyfreithiol yn unig. Byddwn yn recriwtio graddedigion disglair ar £12,000 – £13,000 fel rhai o gwmnïau mwyaf Caerdydd.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

## Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Roedd technoleg a'i manteision cysylltiedig, yn enwedig yng nghyd-destun gwrandawiadau rhithwir, yn thema a drafodwyd yn helaeth gan holl gyfranogwyr y grwpiau ffocws. Mae lleoliad y llysoedd ffisegol wedi bod yn broblem i lawer o bobl yng Nghymru ers amser maith.

Roedd y cyfranogwyr yn unfrydol fod gwrandawiadau rhithwir, y mae'r rheidrwydd a'r awydd amdanynt yn cael eu priodoli i raddau helaeth i’r pandemig Covid-19, yn cyfrannu at fwy o fynediad at gyfiawnder i lawer yng Nghymru. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai cyfranogwyr rhag ystyried gwrandawiadau rhithwir fel yr ateb delfrydol i broblemau mynediad at gyfiawnder.

Mae materion hygyrchedd yn dal i fodoli oherwydd prinder sgiliau digidol a mynediad ar-lein mewn rhannau o Gymru. Cododd eraill anghysondebau yn y ffordd y mae gwrandawiadau rhithwir a hybrid yn cael eu gweinyddu ar hyn o bryd.

*“Cawsom gyfarfod â rhywun sy’n ymwneud â’r broses o wneud penderfyniadau am wrandawiadau rhithwir yn y llysoedd ynadon – awgrymwyd, er bod cyfarfodydd cwbl rithwir yn mynd rhagddynt, bod ymarferwyr ym maes troseddau yn dal i orfod bod yn y llysoedd yn gorfforol. Mae'r CPS a'r farnwriaeth yn gweld eithriadau, ond mae'n rhaid i ymarferwyr ym maes troseddau fod yn bresennol, felly mae anghydraddoldeb go iawn yno. Mae'n eironig fod hyn yn effeithio’n bennaf ar y rhan honno o'r proffesiwn sy'n brin o arian. Mae'n broblem enfawr yng Nghasnewydd a Cwmbrân lle mae'r llysoedd yn orlawn.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gogledd Cymru.***

*“Rwyf wedi bod yn mynd i lysoedd sirol i ymdrin ag achosion lle gall pobl gymryd rhan yn rhithwir. Un o'r heriau welais i yw ymgyfreithwyr heb y mynediad technolegol na'r sgil i gymryd rhan, neu ymgyfreithwyr y byddai'n well ganddyn nhw fod yno yn bersonol. Bûm yn Llys Sirol Llanelli bythefnos yn ôl lle cymerodd dau berson oedrannus ran yn bersonol, tra bod y diffynnydd ar y sgrin. Gallwn eu gwasanaethu yn well, yn gyflymach ac am lai o gost nag yr oeddem yn gallu ei wneud o'r blaen."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

*“Yn fy marn i, mae rhai o’r bobl fwyaf agored i niwed sy’n ceisio cael cyfiawnder yn dod o ardaloedd lle nad oes llysoedd canolog, felly mae’n siŵr o fod yn rhwystredig iawn iddyn nhw orfod mynd i Gaerdydd neu i Gasnewydd i ddweud eu dweud. Rydw i hefyd yn credu fod hynny, fwy na thebyg, yn atal rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed rhag cyflwyno’u hachos.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

Er bod nifer y cyfranogwyr â phrofiad o Dribiwnlysoedd Cymru yn isel, ni allent weld unrhyw ddadl mewn egwyddor ag argymhelliad y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru y dylid defnyddio Tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau yn ymwneud â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.

*“Rydw i wedi gwneud achos yn y tribiwnlys eiddo preswyl. Roedd yn wrandawiad diffwdan. Nid oeddwn yn gwybod ei fod yn bodoli cyn i mi gael cyfarwyddyd i weithredu. Roedd yn wahanol o ran ffurfioldeb i dribiwnlysoedd arferol, ond cefais yr argraff bod fy nghleient yn gyffyrddus iawn yn yr amgylchedd hwnnw.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

*“Rwy’n cefnogi’r argymhelliad yng Nghomisiwn Thomas y dylid defnyddio Tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau sy’n ymwneud â dinasyddion yng Nghymru. Fodd bynnag, dydw i ddim yn deall y datganiad mai tribiwnlysoedd yw'r fforwm cywir i “ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol”. Mae'n ymddangos i mi, os oes materion cyfraith gyfansoddiadol yn codi o ddeddfwriaeth Cymru, y dylid clywed y rheini drwy gyfrwng system bresennol y llysoedd, hynny yw y llysoedd gweinyddol, sef yr Uchel Lys. Dydw i ddim yn meddwl bod gan Dribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd y capasiti, yr arbenigedd neu fel arall i ddelio ag anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Cymru.* Fodd bynnag, efallai bod hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflawni gydag adnoddau ychwanegol."

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

## Technoleg

Cafodd y cyfranogwyr drafodaeth ehangach am fanteision technoleg o ran symleiddio'r broses o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol, creu mwy o effeithlonrwydd mewnol a hwyluso gwell mynediad at gyfiawnder. Esboniodd rhai cyfranogwyr fod llawer o gwmnïau, yng ngoleuni'r pandemig, yn adolygu'r angen am swyddfeydd ffisegol i ddarparu mynediad at gyfiawnder.

*“Mae gennym ni swyddfa gydag ysgrifennydd yn Hwlffordd, ond rydyn ni'n dechrau ystyried a yw'n costio gormod i ni i’w staffio a’i rhentu. Ni fyddwn yn synnu pe bai rhai o'r cwmnïau mwy yn dechrau gwasanaethu'r ardal honno o bell. Byddai ganddyn nhw swyddfa â gwasanaeth yno a fydd ar gael drwy apwyntiad yn unig. Yn araf iawn, bydd gwasanaethau cyfreithiol sydd â phresenoldeb ffisegol yn dechrau cefnu ar yr ardaloedd gwledig hyn. Hwlffordd fydd y cychwyn – ond ddylen ni ddim bod yn siarad yn 2020 am stryd fawr yn Hwlffordd a Chaerfyrddin heb bresenoldeb gwasanaeth cyfreithiol amlwg.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

*“Ydw i eisiau swyddfa ddrud neu swyddfa yn null Regus a gweithio o bell cymaint ag y galla i? Dydw i ddim eisiau meddwl y byddem yn cyrraedd pwynt lle byddwn ni, fel y banciau, yn cefnu ar y stryd fawr, a dydw i ddim yn argyhoeddedig bod pob maes gwaith yn addas ar gyfer gweithio o bell. Er enghraifft,*

*mae ein swyddfa yn Torfaen fel drws agored. Mae'r gymuned yno'n tueddu i fod eisiau ymdrin â'u cyfreithiwr yn bersonol. Mae hynny'n cael effaith ar yr economi leol."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Dwyrain De Cymru.***

Er gwaethaf ei fanteision dirifedi, roedd cyfranogwyr yn awyddus i bwysleisio'r angen i'r sector cyfreithiol ystyried yn ofalus unrhyw fuddsoddiad y mae'n ei wneud mewn technoleg. Esboniodd rhai cyfranogwyr fod y pandemig wedi gorfodi llawer o bractisau cyfreithiol i weithredu'n gyflym trwy fuddsoddi mewn offer digidol fel y gallai'r staff weithio gartref a thrwy hynny, sicrhau bod y busnes yn parhau. Mae risg i hyn oherwydd na fyddai'r penderfyniadau efallai mor gadarn ag y byddent wedi'i ddymuno.

*"Pa safon o dechnoleg rydyn ni'n ei defnyddio? Mae angen i ni gamu'n ôl a rhoi mwy o feddwl iddo, neu fel arall byddwn yn creu amgylchedd electronig na fydd yn caniatáu inni siarad â'n gilydd."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

*"Rhaid i'r seilwaith fod yn ei le os ydym am wneud iddo wir weithio. Rwy'n credu bod llawer o gwmnïau wedi gwneud cynnydd cyflym wrth ddefnyddio technoleg a hynny er mantais iddyn nhw yng ngoleuni Covid. Ond roedd yn rhaid gwneud llawer ohono'n gyflym, felly mae'n teimlo braidd fel gosod plastr ar glwyf."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Dwyrain De Cymru.***

## Cydlynu swyddogaethau cyfiawnder datganoledig yng Nghymru

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn credu bod arweinydd clir dros gyfiawnder yng Nghymru a byddai Gweinidog â chyfrifoldeb am gyfiawnder yn cael ei groesawu. Esboniodd rhai cyfranogwyr ei bod yn hollbwysig cyflwyno dull cydweithredol o weithredu sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector, gyda mewnbwn gan y sector ehangach. Awgrymwyd hefyd y bydd angen i Lywodraeth Cymru sefydlu adran gyfiawnder fwy strwythuredig a gweladwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gwaith o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

*"Yn y cyfamser credaf, o dan gyfarwyddyd y Gweinidog Jeremy Miles, y dylid gwahodd y rhai sydd â chyfraniad i'w wneud tuag at pa bynnag waith yn y cefndir sy'n angenrheidiol yn y cyfnod cyn trosglwyddo cyfrifoldebau cyfiawnder yn rhannol neu'n llawn o San Steffan i Gymru i sefydlu grwpiau i'w gynghori ar y pedwar prif faes sef cyfiawnder troseddol, cyfiawnder sifil, cyfraith teulu a thribiwnlysoedd. Mae gan bob un o'r meysydd hyn eu barnwyr a'u hymarferwyr arbenigol eu hunain ac mae llawer o'r rheini sy'n ymarfer yng Nghymru yn ymwneud yn benodol a heb fod yn benodol ag achosion yng Nghymru.  Yn ogystal, mae yna ymarferwyr o'r tu allan i Gymru sy'n ymwneud ag achosion yn y meysydd uchod yng Nghymru.*

*Mae gan bob un o'r uchod gyfraniadau amhrisiadwy i'w gwneud i gynorthwyo'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru i baratoi ac i fraenaru’r tir ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd ar ryw adeg yn y dyfodol, sef dirprwyo pwerau sy'n effeithio ar rai/pob un o'r meysydd uchod o weinyddiaeth gyfreithiol i Fae Caerdydd.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Dwyrain De Cymru.***

*“Rwy’n meddwl am gost hyn i gyd. Pe baech yn gofyn imi pwy oedd â chyfrifoldeb am gyfiawnder, allwn i ddim dweud wrthych. Byddai'n wych cael rhywun y gellir ei adnabod y gallem ymgysylltu ag ef, ond mae cost i bopeth ac ar hyn o bryd mae'n gyfnod anodd. Byddwn i wedi ei roi, yn greulon efallai, yn y categori “rhywbeth braf i’w gael”.*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Trafododd y cyfranogwyr yn helaeth y gefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru ei darparu er mwyn sicrhau bod y sector cyfreithiol yn barod ar gyfer y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr o'r farn ei bod yn hanfodol bod buddsoddiad ariannol digonol yn cael ei wneud yn seilwaith TG Cymru er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan ymarferwyr o ran digideiddio gwasanaethau cyfreithiol yn ystod y pandemig.

*“Technoleg yw’r lefelwr gwych yn hyn i gyd. Roedden ni’n gallu gweithio gartref ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod clo, ond rwy'n amau nad dyna’r sefyllfa yn achos pob cwmni. Mae natur ein busnes yn golygu bod yn rhaid i ni fuddsoddi mewn cydymffurfiaeth a chefn swyddfa i sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i oroesi. Rydyn ni'n gwario miliynau bob blwyddyn i gadw i fyny, felly rwy'n credu y gallai cronfa dechnoleg i gwmnïau gael mynediad iddi i fuddsoddi mewn offer digidol fod yn rhyw fath o lefelwr posibl.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr hefyd y pwysigrwydd o sicrhau bod cyfiawnder yn hygyrch i bawb. Efallai na fydd gan rai fynediad at ddulliau digidol, na’r sgiliau angenrheidiol, i fynd ar drywydd eu mater drwy’r dulliau hynny. Awgrymwyd y gallai canolfannau cymunedol fod ar gael i bobl gwrdd â'u cyfreithiwr a/neu fynychu gwrandawiadau’n rhithwir.

*“Mae practisau cyfreithwyr bron wedi diflannu yn Sir Aberteifi. Pan ddechreuais, roedd llys sirol yn Aberystwyth, Llambed, Aberteifi ac Aberaeron. Nawr dim ond un sydd ar ôl, ac eto mae angen gwasanaethau cyfreithiol yn y trefi hynny o hyd. Welai i ddim rheswm pam na all yr awdurdod lleol, sydd â phresenoldeb yn yr holl leoedd hynny, sicrhau bod TG priodol ar gael fel y gall pobl gael mynediad at gyfiawnder. Gall Llywodraeth Cymru wneud llawer i helpu i wneud i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl gyfathrebu â'u cyfreithwyr weithio.”*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

*"Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod cwmnïau gwledig yn buddsoddi mewn technoleg.* Mae'r pandemig hefyd wedi golygu bod eu cleientiaid wedi dod yn fwy technolegol o reidrwydd. Er nad oes modd darparu ar gyfer pawb, gallaf weld bod llawer o gydgrynhoi yn y sector lle mae busnesau gwledig llai yn dod at ei gilydd, sy'n fwy cynaliadwy, gan y bydd ganddyn nhw ddalgylch mwy o faint. Bydd cleientiaid hefyd yn gallu gael gafael ar eu cyfreithiwr ar y gliniadur. Byddai hynny wedi bod y tu hwnt i amgyffred neb y llynedd. Byddai'r buddsoddiad hwnnw felly'n helpu mynediad at gyfiawnder yn sylweddol."

***Cyfranogwr 2 grŵp ffocws Canol De Cymru.***

## Ymgysylltu

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr o'r farn bod lefel yr ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru â'r sector cyfreithiol yn annigonol.

*"Mae'r prif gymdeithasau cyfraith lleol yn Llundain – Cymdeithasau Cyfraith Dinas Llundain, San Steffan a Holborn – wedi cyfrannu'n gyson at ddatblygu biliau sy'n pasio drwy San Steffan, oherwydd bu awydd am yr ymgysylltiad hwnnw ac mae San Steffan ei hun wedi ymateb i hynny.* Dydw i ddim yn argyhoeddedig bod y Senedd, drwy'r pwyllgorau sydd ganddi, yn annog nac yn croesawu barn ymarferwyr yng Nghymru.

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru***

*"Fe ddywedwn i mai ychydig iawn o ymgysylltu oedd cyn i mi ymuno â Phwyllgor Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru. Rwy'n cael yr argraff eu bod wrthi'n ceisio barn gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn gweld unrhyw ymgysylltiad â'm cymheiriaid nad ydyn nhw'n ymwneud â phwyllgorau."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru***

*"Ydyn nhw'n ymgysylltu o gwbl? Dyna fyddai fy nghwestiwn i."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canolbarth a Gorllewin Cymru***

Fodd bynnag, roedd gan rai cyfranogwyr brofiad cadarnhaol o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac roeddent yn gobeithio y byddai hynny'n parhau yn achos unrhyw ddatganoli posibl o ran cyfiawnder.

*"Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd gwelliant gwirioneddol a datganiad o fwriad, a chredaf ei fod yn glod i'r Cwnsler Cyffredinol ei fod yn gwthio'r materion hynny. Ymddengys y bu newid sylweddol o ran ceisio defnyddio siambrau Cymru ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru, sy'n beth da. Os yw Llywodraeth Cymru eisiau hybu'r newid, yna mae'n ddyletswydd arni i ddefnyddio arbenigedd lleol lle gall wneud hynny."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***

Esboniodd un cyfranogwr fod Swyddfa Cymru o Gymdeithas y Cyfreithwyr wedi bod yn trefnu 'galwadau Covid' wythnosol gyda'r proffesiwn cyfreithwyr yng Nghymru, sydd wedi cynnwys partneriaid rheoli (neu gyfwerth) cwmnïau a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

*"Bu deialog agos. Rwy'n teimlo bod ganddyn nhw gonsyrn go iawn ac rydw i wedi gweld yr alwad yn werthfawr. Dim ond galwad hanner awr yw hi, am 8:30 am, ac rydyn ni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol a chyfle i ofyn cwestiynau."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Dwyrain De Cymru.***

Bu'r cyfranogwyr hefyd yn trafod y dull ymgysylltu, gan egluro bod manteision i ymgysylltu mwy anffurfiol, trwy grwpiau ffocws, er enghraifft. Cyfeiriwyd at bwysau o ran amser, adnoddau a chapasiti fel rhesymau dros ffafrio dulliau ymgysylltu mwy anffurfiol. Roeddent o'r farn bod y rheini yr un mor werthfawr â dulliau mwy ffurfiol o gasglu tystiolaeth.

*"Yr hyn rydych chi'n ei wneud heno yw ein gwahodd ni i wneud cyfraniadau. Does dim rhaid i hyn fod yn ffurfiol. Yn syml, gall fod yn ddim mwy na chynnal grŵp ffocws am awr ambell noson. Mae yna rai pobl yn treulio llawer o amser yn ysgrifennu ymateb ymgynghori. Does gen i ddim amser i ymateb yn y ffordd honno, ond efallai y byddwn yn barod i gyfrannu fel hyn (trwy grŵp ffocws rhithwir)."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Gorllewin De Cymru.***

## Hygyrchedd cyfraith Cymru

Esboniodd rhai cyfranogwyr fod angen gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, a bod angen cynyddu'r ymwybyddiaeth ohoni. Er enghraifft, esboniodd un cyfranogwr ei fod, yn ystod camau cynnar y cyfyngiadau a osodwyd yng ngoleuni'r pandemig, wedi ymdrin â hawliad yn ymwneud â phriodas wedi'i chanslo. Esboniodd nad peth hawdd oedd pori dwy'r ddeddfwriaeth berthnasol a cheisio gwneud synnwyr o'r canllawiau a'r gyfraith, hyd yn oed i fargyfreithiwr profiadol.

*"Mae cyflymder anarferol bron yn y ffordd y mae deddfwriaeth Covid wedi cael ei drafftio, ac rwy'n credu bod hynny mewn gwirionedd wedi golygu bod mwy o sylw wedi'i roi i'r gwahaniaethau (yn y gyfraith), yn sicr yn fwy felly na deddfwriaeth ddatganoledig o ddydd i ddydd. Mae eironi i hynny, oherwydd bu beirniadaeth wirioneddol o'r broses yn San Steffan. Nid wyf yn argyhoeddedig bod y broses o ddeddfu o reidrwydd yn fwy tryloyw ym Mae Caerdydd, ond yn sicr mae wedi'i gwneud yn gwbl glir bod iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli er enghraifft."*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru***

*“Rydw i wedi bod yn rhan o achosion – achosion tai fel arfer – lle mae gwrthwynebwyr o Loegr yn dyfynnu’r rheoliadau anghywir neu’n dibynnu ar bethau nad ydyn nhw’n gymwys. Er enghraifft, mae yna gwmnïau annog hawliadau sy'n delio â materion cyflwr tai, a does ganddyn nhw ddim syniad bod pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'n llai tebygol bod camgymeriadau'n cael eu gwneud mewn achosion llys, ond mae wedi digwydd. Mae hygyrchedd y gyfraith yn rhwystr mawr i fynediad at gyfiawnder yn fy marn i.*

***Cyfranogwr grŵp ffocws Canol De Cymru.***